



Cwestiynau Cyffredin Rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol

Beth yw Rheoli Adnoddau Naturiol?

Ystyr rheoli adnoddau naturiol yw rheoli'n hamgylchedd naturiol mewn ffordd unedig sy'n cyflawni canlyniadau real i'r amgylchedd, pobl, yr economi a'n cymunedau.

Pam fod hyn yn bwysig?

Mae adnoddau naturiol Cymru - ein tirweddau, cynefinoedd, aer a dŵr - yn sail i fywydau pob un ohonom. Er mwyn sicrhau safon byw derbyniol ar gyfer pawb mae angen cymryd camau i ddefnyddio'n hadnoddau naturiol yn y ffordd orau a'u cynnal ar gyfer yr hirdymor.

Ein nod yw sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar adnoddau naturiol Cymru, gan ofalu ar ôl systemau naturiol a'u hatgyfnerthu. Rydym am barhau i ddarparu'r manteision i bobl, cymunedau ac economi Cymru yn y tymor hir.

Sut mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu?

Cynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch ein cynlluniau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd well yn 2010 a 2012. Sefydlwyd y Rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol mewn ymateb i'ch sylwadau ac er mwyn symud ymlaen gyda'n hymrwymiaadau polisi a'n huchelgais. [Gallwch ddarllen yr adroddiad o ymgynghoriad 2012 ar ein gwefan.](#)

Sut mae rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys yn y gwaith hwn?

Mae Grŵp Cyfeirio allanol gennym sy'n cynnwys aelodau o amrywiaeth eang o sectorau. Y Grŵp Cyfeirio yw'r prif fforwm rhanddeiliaid ar gyfer yr Adran Cyfoeth Naturiol a Bwyd.

Daeth 160 o bobl ynghyd yn [y Gynhadledd Cyfoeth Naturiol ar 25 Tachwedd](#) 2013 i drafod Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd, a gwaith ehangach yr Adran Cyfoeth Naturiol a Bwyd.

Ym mis Rhagfyr 2013, cynhaliwyd 4 gweithdy ledled Cymru i drafod syniadau ar gyfer y Gronfa Natur newydd. Rydym hefyd wedi cynnal 4 digwyddiad ymgynghori rhanbarthol ar Bapur Gwyn Bil yr Amgylchedd ym mis Rhagfyr 2013 a mis Ionawr 2014.

Hefyd, rydym yn cynnal cyfarfodydd a gweithdai gyda rhanddeiliaid ac yn anfon e-fwletin atynt, yn ogystal â diweddarau'r wefan gyda'r datblygiadau diweddaraf.

Os hoffech wybod rhagor am y Rhaglen a sut y gallwch gyfrannu ati, anfonwch e-bost at naturalresourcemanagement@wales.gsi.gov.uk

Beth yw dull rheoli ar lefel yr ecosystem?

Mae'n ddull cyffredin o gefnogi a chyfrannu at benderfyniadau am ein hadnoddau naturiol a'r rheolaeth ohonynt mewn ardal benodol. Bydd yn sicrhau y gall cymdeithas gynnal amgylchedd naturiol iach a chadarn heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Bil yr Amgylchedd

Beth yw pwrpas Bil yr Amgylchedd?

Bydd Bil yr Amgylchedd yn sicrhau bod gennym fframwaith deddfwriaethol priodol yn ei le er mwyn rheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd unedig, fel yr ymrwymwyd gennym yn y Rhaglen Lywodraethu.

Mae cynigion y Papur Gwyn wedi cael eu llunio er mwyn cael gwared ar unrhyw gymhlethdod diangen ac i symleiddio'r prosesau a'r cynlluniau drwy gyfrwng dull cynllunio newydd yn seiliedig ar ardal ar gyfer rheoli adnoddau naturiol.

Bydd y dull hwn o weithredu yn seiliedig ar dirlun yn ein helpu ni, yn y tymor hir, i ad-drefnu'r ystod eang o gynlluniau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu creu ar hyn o bryd.

Yr elfen fwyaf arwyddocaol ym Mil yr Amgylchedd fydd fframwaith i flaenoriaethu cyfleoedd adnoddau naturiol ac i sicrhau bod gennym y dystiolaeth y mae arnom ei hangen i fod yn well sail i gynllun a chyfeiriad twf a datblygiad economaidd cynaliadwy.

Ceir cysylltiad agos rhwng y cynigion yn y Bil hwn a'r rhaglen ehangach o ddiwygio a symleiddio sy'n cael ei gweithredu yn y Bil Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Bil Cynllunio. Gyda'i gilydd, nod y Biliau hyn yw cyflawni manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i Gymru.

Bydd cynigion eraill yn y Papur Gwyn yn galluogi gwelliannau mewn effeithlonrwydd adnoddau, er enghraifft, mewn rheoli gwastraff, a darpariaethau i hybu symleiddio ac egluro'r gyfraith mewn nifer o feysydd. Mae'r cynigion hyn yn cefnogi ymhellach ein hymgyrch dros effeithlonrwydd a thros sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Yn gryno, bydd y cynigion hyn yn golygu'r canlynol:

- Prosesau'n cael eu symleiddio, heb ddyblygu gwaith

- Blaenoriaethau'n canolbwyntio ar yr anghenion a'r cyfleoedd ar gyfer gwahanol ardaloedd, gydag anghenion cymunedau wrth galon y penderfyniadau rydym yn eu gwneud
- Bydd gennym broses glir ar gyfer pennu canlyniadau ar lefel genedlaethol a lleol
- Bydd gennym dystiolaeth o ansawdd well am allu, cyfleoedd a chadernid ein hadnoddau naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Pam mae arnom angen Bil yr Amgylchedd?

Er mwyn diogelu ffyniant Cymru yn y dyfodol, mae arnom angen cydnabod gwerth ein hadnoddau naturiol a'r gwasanaethau maent yn eu darparu

Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i ni roi fframwaith deddfwriaethol modern yn ei le sy'n cydnabod bod cysylltiad rhwng ein dŵr, ein tir a'n haer a bod ein heconomi, ein cymdeithas a'n hamgylchedd i gyd yn rhyngddibynnol.

Mae egwyddorion y dull ecosystemau o weithredu wrth galon y Bil, gan sicrhau bod modd rhoi ystyriaeth briodol i werth ein hecosystemau.

Ceir cysylltiad clir rhwng trechu tlodi, ffyniant economaidd a'r defnydd o adnoddau naturiol ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Sut bydd y cynigion yn y Papur Gwyn yn ychwanegu gwerth?

Bydd Polisi Adnoddau Naturiol cenedlaethol yn datgan cyfeiriad teithio ar lefel uchel yng Nghymru, gan gynnwys ble gall rheolaeth unedig ar adnoddau naturiol helpu i sicrhau'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol gorau yn awr ac yn y tymor hir. Er mwyn cyflawni amcanion amgylcheddol ar gyfer llygredd wasgaredig, rheoli lefelau dŵr neu adfer rhywogaethau, mae'n rhaid wrth gydweithredu ar raddfa tirlun. Bydd cyflwyno dull seiliedig ar ardal o weithredu i reoli adnoddau naturiol yn golygu bod proses gliriach ar gael ar gyfer partneriaid cyflawni perthnasol.

Bydd y fframwaith deddfwriaethol yn cefnogi Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni ei bwrpas craidd: bod yr amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio mewn ffordd gynaliadwy.

Bydd y Bil hefyd yn galluogi datblygu mecanweithiau i feithrin cadernid ecosystemau fel elfen hanfodol o les tymor hir, ac nid fel ôl-ystyriaeth. Efallai bydd adfer cynefin penodol a'r ecosystem ategol yn rhan sylfaenol o gynllun ardal ar gyfer cadernid economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn y dyfodol.

Beth yw goblygiadau cynigion y Papur Gwyn ar gyfer twf economaidd cynaliadwy?

Bydd y Bil yn golygu y bydd modd i Cyfoeth Naturiol Cymru ddatblygu ffyrdd newydd o weithio er mwyn helpu i sicrhau'r manteision tymor hir gorau posib o'n hadnoddau naturiol, gan gynnwys drwy dalu am wasanaethau ecosystemau fel storio carbon a rheoli dŵr. Dyma gyfle da iawn i helpu i sbarduno twf cynaliadwy a defnyddio marchnadoedd newydd yn y sectorau amgylcheddol a swyddi newydd.

Bydd cyflwyno dull unedig o weithredu, yn seiliedig ar ardal, er mwyn rheoli ein hadnoddau naturiol yn helpu i symleiddio prosesau a bydd hynny o fudd i fusnesau ac yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd gydag adnoddau.

Hefyd, bydd y Bil yn helpu i sicrhau bod y wybodaeth gywir gennym ynghynt, er mwyn gallu canfod y cyfleoedd datblygu priodol yn y llefydd iawn, i gefnogi ein huchelgais i sicrhau twf yn y tymor hir.

Beth yw goblygiadau cost y cynigion?

Mae'r pwyslais wrth ddatblygu'r cynigion wedi bod ar leihau baich, gwella cost-effeithiolrwydd a sicrhau prosesau rheoleiddiol mwy effeithiol. Pwrrpas y cynigion yw sicrhau effeithiau cadarnhaol ar gyfer cyflawni yn y sector cyhoeddus, gan helpu i sicrhau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol parhaus.

Roedd y Papur Gwyn yn cynnwys asesiad cychwynnol o effaith y cynigion. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Bil drafft

Beth yw goblygiadau cynigion y Papur Gwyn ar gyfer yr agenda trechu tlodi?

Ceir cyswllt clir rhwng trechu tlodi a defnyddio adnoddau naturiol. Bydd y cynigion ar gyfer dull seiliedig ar ardal o weithredu'n sicrhau bod gennym yr wybodaeth briodol am bob her a chyfle mewn gwahanol ardaloedd. Bydd y dystiolaeth hon yn help fel sail i benderfyniadau ynghylch sut gallwn wella ein hamgylchedd ar gyfer ein cymunedau – yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig.

Rydym eisiau i'r dull newydd hwn o weithredu helpu i dargedu'n well y buddsoddiad mewn gwelliannau lleol, neu gefnogi penderfyniadau ynghylch cyfleoedd datblygu. Dylai pawb yng Nghymru allu mwynhau amgylchedd glân a diogel ac elwa o ofod gwyrdd. Bydd y Bil hwn yn ein helpu i gyflawni hyn.

Cadernid ein hadnoddau naturiol yw'r sylfaen gadarn y mae ein cymdeithas yn dibynnu arni. Bydd y dull arfaethedig o weithredu yn seiliedig ar ardal o ran cynllunio adnoddau naturiol yn helpu i feithrin cadernid amgylchedd naturiol Cymru a'n heconomi a'n cymunedau.

Drwy feithrin cadernid, er enghraifft, yn wyneb achosion a chanlyniadau newid hinsawdd, rydym yn gwella gallu grwpiau a chymunedau agored i niwed i wrthsefyll pob her ac yn helpu i atal mwy rhag syrthio i grafangau tlodi.

Sut bydd cyfyngiadau amgylcheddol yn cael eu hadlewyrchu ym Mil yr Amgylchedd?

Mae'n amlwg nad ydym yn gallu sicrhau lles a datblygiad cynaliadwy yng Nghymru heb ystyried effeithiau byd eang ehangach, ac ni allwn edrych ar Gymru ar ei phen ei hun, wedi'i hynysu oddi wrth weddill y byd.

Pwrrpas y cynigion yw sicrhau'r budd tymor hir mwyaf effeithiol o'n hadnoddau naturiol, i ddiwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Bydd y Bil Cenedlaethau'r Dyfodol yn pennu'r cyfeiriad cyffredinol mewn perthynas â chyfyngiadau amgylcheddol fel rhan o'i gyfrifoldeb cyffredinol am ddatblygiad cynaliadwy.

Beth mae'r cynigion Gwastraff yn ei gynnwys?

Rydym wedi pennu targedau uchelgeisiol ar gyfer ailgylchu gwastraff yng Nghymru. Mae'n rhaid i ni sefydlu polisïau cadarn ond cymesur er mwyn cyflawni lefelau uchel o ailgylchu o safon uchel.

Nod y cynigion yw rhoi hwb i'r sector rheoli gwastraff drwy anfon neges glir am bwysigrwydd ailgylchu a symud gweithgareddau i fyny'r hierarchaeth gwastraff. Yn eu tro, bydd busnesau'n arbed arian efallai, er enghraifft, drwy osgoi'r costau cysylltiedig â thirlenwi a thrwy sicrhau arbedion effeithlonrwydd adnoddau.

Yn y pen draw, mae ailgylchu cynyddol yn llesol i economi Cymru ac i'r amgylchedd.

Beth mae'r cynigion ar gyfer Bagiau Siopa'n ei gynnwys?

Mae'r drefn bresennol o dalu am fagiau siopa wedi bod yn llwyddiannus iawn er mwyn rhoi sylw i fagiau siopa untro. Fodd bynnag, ni allwn ymyrryd ar hyn o bryd ag unrhyw fathau eraill o fagiau siopa sydd â photensial i niweidio'r amgylchedd drwy gael gwared arnynt yn amhriodol, fel 'bagiau am oes'.

Mae'r cynigion yn ceisio ymestyn ein pwerau galluogi, a dim ond os bydd tystiolaeth yn y dyfodol yn dynodi bod hyn yn angenrheidiol fydd y pwerau'n cael eu hymarfer.

Dim ond ar ôl ymgynghori helaeth pellach gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys adwerthwyr a gweithgynhyrchwyr, fyddai rheoliadau'n cael eu llunio.

Beth mae'r cynigion ar gyfer Trwyddedu Morol yn ei gynnwys?

Fyddai'r pwerau newydd yn darparu dull mwy hyblyg ac addas i bwrpas ar gyfer codi ffioedd am drwyddedau morol.

Bydd pwerau i godi ffioedd yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i ddigolledu eu costau, lle bo hynny'n briodol ac yn rhesymol, a bydd yn darparu system fwy effeithiol ac effeithlon o drwyddedu morol ar gyfer Cymru

Beth mae'r cynigion ar gyfer Rheoli Pysgodfeydd Pysgod Cregyn yn ei gynnwys?

Mae angen gwella ein deddfwriaeth pysgodfeydd yng Nghymru, er mwyn sicrhau ei bod yn addas i bwrpas, yn hawdd ei deall ac yn arwain at ecosystemau Pysgodfeydd Pysgod Cregyn cadarnach a mwy amrywiol.

Mae'r cynigion ar gyfer dull symlach a mwy integredig o weithredu, heb fiwrocratiaeth diangen.

Beth mae'r cynigion ar gyfer Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol yn ei gynnwys?

Bydd y cynnig yn datrys problem a achoswyd gan fwlb yn y deddfwriaeth mewn perthynas â gorfodi'r gorchmynion sydd wedi'u gwneud gan y Tribiwnlys Tir Amaethyddol ar gyfer Cymru. Bydd gan Weinidogion Cymru bwerau i sicrhau mynediad i dir er mwyn archwilio cydymffurfiaeth â gorchmyn.

Beth yw'r amserlen ar gyfer cyflawni'r Bil?

Cyhoeddwyd y Papur Gwyn ar 23 Hydref a bydd y cyfnod ymgynghori'n para tan 15 Ionawr 2014. Cyhoeddwyd adroddiad cryno ar 26 Mawrth 2014.

Ar hyn o bryd, rydym yn rhagweld y bydd y bydd y Bil yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad yn 2015.

Sut fyddwch chi'n ceisio barn y rhanddeiliaid?

Roedd yr ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Bil yr Amgylchedd yn gyfle i ddylanwadu ar y Bil a chyfrannu ato, ac i gael rhagor o wybodaeth am ein dull o weithredu er mwyn rheoli adnoddau naturiol.

Hefyd, cynhaliom ddigwyddiadau ymgysylltu mewn perthynas â'r Papur Gwyn.

Oes ffordd arall o gymryd rhan?

Gallwch gael gwybod am y datblygiadau diweddaraf ar Facebook a Twitter drwy ddilyn @WG_NatResMin a hoffi tudalen Facebook Llywodraeth Cymru.

Gallwn hefyd ychwanegu'ch enw at ein rhestr bostio.

I gael rhagor o wybodaeth am ffyrdd o gymryd rhan, neu i ymuno â'r rhestr bostio, anfonwch e-bost at naturalresourcemanagement@wales.qsi.gov.uk

Sut mae Bil yr Amgylchedd yn perthyn i'r Rhaglen Lywodraethu a'r rhaglen ddeddfwriaethol?

Roedd Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad i gyflwyno Bil yr Amgylchedd. Roedd y Bil hefyd wedi'i gynnwys yn Rhaglen Ddeddfwriaethol pum mlynedd Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ar 12 Gorffennaf 2011.

Sut mae Bil yr Amgylchedd yn perthyn i Filiau eraill (Cenedlaethau'r Dyfodol, Treftadaeth, a Chynllunio)?

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru'n gosod cyfeiriad clir gan sicrhau ein bod yn ystyried effeithiau tymor hir pob penderfyniad yr ydym yn ei wneud nawr. Bydd pob Bil yn canolbwyntio ar egwyddor sylfaenol datblygu cynaliadwy, er mwyn darparu manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i bobl Cymru. Yn ogystal â gwella ansawdd bywyd i bobl Cymru, drwy ysgogi twf economaidd, creu swyddi a threchgu tlodi.

Y Gronfa Natur

Beth yw'r Gronfa Natur £6m?

Llynedd cyhoeddodd Alun Davies, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ei fod yn sefydlu Cronfa Natur gwerth £6m er mwyn hybu ffyrdd mwy cydlynol o gydweithio ar sail ardal i gryfhau byd natur a pharhau i gefnogi anghenion ein cymdeithas.

Prif nod y gronfa fydd mynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a symud tuag at ddull gweithredu sy'n cydnabod rhyng-ddibyniaeth ffactorau cymdeithasol ac economaidd.

Mae'r Gronfa'n cefnogi ein gwaith ehangach ni gan gynnwys sefydlu fframwaith statudol modern drwy Fil yr Amgylchedd, i gyflawni ein hymrwymiad i reoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd sy'n cynyddu cadernid ac yn hybu twf economaidd gwyrdd.

Wrth ddatblygu'r Gronfa Natur, fe ofynnon ni am syniadau i sicrhau ein bod yn gwrando ar y rhai sy'n rheoli ein hadnoddau naturiol ac yn rheoli ein tir. Daeth dros 460 o syniadau i law ar gyfer y gronfa gan amrywiaeth eang o unigolion a chyrrff. Rydym wedi astudio a dadansoddi'r syniadau'n ofalus ac mae'r syniadau dylanwadu'n bendant ar y Gronfa a sefydlwyd gan y Gweinidog ar [14 Mai](#).

Beth yw swyddogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru?

Bydd Llywodraeth Cymru a CNC yn cydweithio'n agor â'u partneriaid i gyflawni'r Gronfa a bydd hyn yn cydategu'r gwaith sydd eisoes ar y gweill o fewn tair ardal dreialu CNC.

Beth sy'n cael ei gyllido?

Defnyddir y Gronfa i gefnogi gweithgarwch mewn saith Ardal Gweithredu Byd Natur ar draws Cymru, a ddewiswyd ar ôl dadansoddi'r syniadau a ddaeth i law a'r heriau a chyfleoedd y maent yn eu cynnig ar gyfer bioamrywiaeth a'n hadnoddau naturiol ni. Dyma'r Saith Ardal Gweithredu Byd Natur:

- Bannau Brycheiniog
- Mynyddoedd y Cambria
- Dyffryn Conwy
- Arfordir Sir Benfro
- Cymorth y De
- Y Berwyn a'r Migneint
- Pen Llŷn

Bydd y Gronfa Natur yn canolbwyntio ar gymryd camau gweithredu ymarferol ym mhob un o'r saith Ardal Gweithredu Byd Natur. Y prif weithgareddau yw:

- Gweithredu i wella dalgylchoedd afonydd
- Gweithredu ar ecosystemau morol

- Gweithredu er lles yr amgylchedd naturiol
- Gweithredu i wireddu potensial ein hucheldiroedd
- Gweithredu i ysgogi arloesi

A roddir ystyriaeth i brosiectau sydd tu allan i'r Ardaloedd Gweithredu Byd Natur?

Rhoddir ystyriaeth i nifer fach o gynigion oddi allan i'r Saith Ardal Weithredu Byd Natur os ydynt yn enghreifftiau da o arloesi a chydweithredu ac yn cyflawni amcanion allweddol.

Beth yw'r Arweiniad Llywodraeth Cymru

Bydd nifer fach o gynigion yn cael eu defnyddio'n uniongyrchol i wella tir sydd â gwerth ecolegol isel, er enghraifft, drwy sefydlu coetiroedd collddail a gweithio i gynyddu amrywiaeth fiolegol mewn ffordd sy'n gwella cyfleoedd i'n cymunedau.

Bydd hyn yn ein galluogi i ddangos sut rydym yn buddsoddi'n uniongyrchol mewn ffordd a fydd yn cyflawni manteision bioamrywiaeth a chymunedol ar draws ein hystâd. Er enghraifft, drwy wella ymylon y ffyrdd i bryfed peillio.

Bydd cyfleoedd i weithredu hefyd yn y tri dalgylch afon lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cynnal prosiectau peilot, sef Afon Dyfi, Afon Tawe ac Afon rhondda. CNC fyd dyn hwysudo hyn.

Sut alla i gymryd rhan yn y gwaith hwn?

Dros yr wythnosau nesaf bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda phobl sydd wedi cyflwyno syniadau i nodi faint ohonynt sydd â'r potensial i ddatblygu'n brosiectau cydweithredol a fydd yn gallu manteisio ar gyllid o'r Gronfa Natur am eu bod yn cyflawni gweithgareddau a flaenoriaethir. Rydym yn disgwyl gallu cyhoeddi pa brosiectau a gyllidir yn yr haf.

Yn ogystal â chyllido'r cynigion hyn ar ôl eu datblygu ymhellach, byddwn hefyd yn anelu i gyllido cynigion cydweithredol sydd angen rhagor o gynllunio a chydweithio o fewn yr Ardaloedd Gweithredu Byd Natur. I helpu gyda hyn bydd y rhanddeiliaid yn cael eu gwahodd dros y misoedd nesaf i ddigwyddiadau partneriaeth a gynhelir ym mhob un o'r saith Ardal Gweithredu Byd Natur.

Pam nad yw fy syniad i wedi cael cyllid?

Roedd y cais am syniadau yn nodi'n glir nad ymarfer bidio ar gyfer prosiectau unigol oedd hwn. Y syniadau eu hunain sydd wedi dylanwadu ar y mathau o weithgareddau a gyllidwyd a'u lleoliad daearyddol.

A yw'r syniadau wedi cael eu cyhoeddi?

Ydyn. Mae'r syniadau ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru (dim ond y syniadau hynny yr ydym wedi cael caniatâd y rhanddeiliaid perthnasol i'w cyhoeddi sydd i'w gweld ar y wefan). Pwrpas cyhoeddi'r syniadau yw bod rhanddeiliaid yn cael gweld y themâu sy'n ymddangos, adnabod cysylltiadau rhwng y syniadau a gweld lle byddai cydweithio yn ddefnyddiol wrth fynd â'r gwaith yn ei flaen.

A gynigir cyllid i ardaloedd eraill yn y dyfodol?

Rydym yn edrych ar wahanol opsiynau i gynnal y cyllid am flynyddoedd i ddod.

Sut gall ffermwyr a thirfeddianwyr gymryd rhan?

Bydd ffermwyr a/neu dirfeddianwyr yn gallu cyflwyno prosiect i'w ystyried o dan y rhaglen grant.

Yn ogystal, defnyddir rhan o'r Gronfa Natur i gynyddu capasiti, gan ganolbwyntio ar ddatblygu'r mecanweithiau a phartneriaethau sy'n bodoli eisoes er mwyn datblygu camau gweithredu a arweinir gan y partneriaid i weithio gyda byd natur a'i wella fel bod busnesau fferm yn gallu manteisio ac elwa arno.

Sut mae gweithdai'r Gronfa Natur wedi helpu i roi sylfaen i'r gwaith hwn?

Ym mis Rhagfyr 2013, cynhaliwyd cyfres o weithdai am y Gronfa Natur yn Aberystwyth, Cyffordd Llandudno, Merthyr Tudful a Chaerdydd i drafod y syniadau ar gyfer y gronfa. Dadansoddwyd canlyniadau'r gweithdai hyn yn ogystal â'r syniadau.

